

## Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd y penwythnos diwethaf am farwolaeth Mrs Heulwen Thomas (Llansannan), un o aelodau hynaf yr Ofalaeth. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Brenda Evans a Beryl Williams (Llansannan) a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Yn yr un modd, cydymdeimlwn ag eraill o'r Ofalaeth sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar. Hyderwn y cânt oll adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Anfonwn ein cofion at Gwyneth Wynne (Henllan) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar, a hefyd Dona Mair Jones (Llansannan) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ddechrau'r wythnos hon. Dymunwn adferiad llwyr a buan iawn i'r ddwy ohonynt. Cofiwn hefyd am Trefor Jones (Nantglyn), a Selwyn Davies ac Eirian Davies (Cefn Meiriadog) sy'n parhau yn yr Inffirmari, ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd ac yn gyson yn ein gweddiâu. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn profi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau i Aled a Tanya Owen (Llansannan) ar enedigaeth merch – Cadi Ann, chwaer fach i Elin Mair a Megan Enlli. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig hon, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

## Dathlu Canmlwyddiant Capel Coffa Henry Rees

Ar nos Lun, Tachwedd 3ydd, bwriedir dathlu canmlwyddiant Capel Coffa Henry Rees, Llansannan. Os oes gennych **unrhyw luniau** o'r cyfnod, byddem yn ddiolchgar iawn o gael eu benthyg. Byddai Mair yn falch o'u derbyn cyn diwedd mis Medi, os yw hynny'n bosibl. Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad ar y cefn er mwyn inni gael eu dychwelyd i chi wedyn, os gwelwch yn dda.

## I ddod

- **CWRDD CHWARTER** yn cyfarfod ar y cyd â Chyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint yng Nghapel Pendref, Rhuthun nos Iau, Medi 25ain am 7.00 yng nghwmni'r Parch. Ddr Geraint Tudur a'r Parch. Robin Samuel.
- **ADUNIAD LLANW** nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 26ain-27ain yn y Bala ar gyfer pobl o bob oed, yn deuluoedd ac unigolion, ac i ffrindiau hen a newydd. Y siaradwr fydd y Parch. Hywel Meredydd. Cysylltwch â Choleg y Bala i roi eich enw, mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda (01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk)).

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14<sup>eg</sup> Medi 2014

Darlleniad y Dydd

Iago 1:22-27

(BCND tud.251 / BCN: tud.231)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'r oedfaon ar draws Bro Aled heddiw, a chroeso arbennig yn ôl i Derek fydd yn pregethu yn Oedfa'r Fro yn Llansannan heno. Er ei fod yn gyfarwydd iawn i hanner yr ofalaeth, dyma'r tro cyntaf i Derek fentro i'n plith fel gŵr priod! Hyfrydwch i ni yw cael gweddio am fendith yr Arglwydd ar Derek ac Alaw yn eu gweinidogaeth yn Abertawe, ac ar eu bywyd priodasol.

O fewn wythnos, byddwn yn gwybod beth yw dyfodol gwlad yr Alban ar ôl canlyniad y refferendwm ar annibyniaeth. Yr wythnos hon, mae'r newyddion wedi bod yn llawn o ddadlau brwd wrth i'r ddwy ochr geisio perswadio'r Albanwyr mai eu safbwynt hwy ddaw â'r dyfodol gorau iddynt. Wrth edrych ar y bwletinâu, un neges sy'n cael ei hailadrodd hyd at syrffed yw'r honiad y bydd y newid a ddaw mewn Alban annibynnol yn siŵr o gael effaith enfawr ar fywydau'r Albanwyr. Yn ôl yr ymgyrch 'Ie' a 'Na' bydd pethau'n cael eu trawsnewid yn sgil y penderfyniad tyngedfennol hwn.

Wrth i ni droi at ein darlleniad o Lythyr Iago, trawsnewidiad o fath gwahanol sydd dan sylw. Rhoi cyfarwyddyd i Gristnogion y mae Iago ynglŷn â sut y dylai eu ffydd yng Nghrist ddylanwadu ar eu bywydau.

Dyhead mawr Iago yw gweld Gair Duw yn trawsnewid bywydau Cristnogion, ac nid mewn ffordd arwynebol, ond yn ddwfn ac yn barhaol, i effeithio ar bob rhan o'u bywydau. Yr allwedd i hynny yn ôl Iago, yw nid gwranddo ar y Gair yn unig, ond gweithredu arno. Dylai'r Beibl gael y fath effaith ar fywyd y Cristion nes bod newidiadau enfawr i'w weld yn ei sgysiau, ei agwedd tuag at eraill mewn angen, a'i ymdrech i ymwrthod â themtasiynau'r byd. Yn wir, mae Ioan yn mynd ymhellach gan ddweud fod Cristion sydd â'i galon wedi ei thrawsnewid gan yr Ysbryd Glân yn rhywun sy'n caru awdur y Beibl ac yn dangos hynny trwy gadw ei orchmynion, sydd ddim yn feichus. (1 Ioan 5:3)

Beth amdanom ni heddiw? Ydym ni fel disgrifiad Iago yn bobl sy'n gwranddo ar y Beibl, ond y munud nesaf mae'r Gair wedi diflannu o'n cof – yn twyllo'n hunain wrth wneud Gair Duw yn ymylol i'n bywydau bob dydd? A ninnau'n cael cyfle o'r newydd heddiw i foli Duw a gwranddo ar ei Air, beth am i ni ymroi i weddio ar i Dduw newid ein meddyliau a'n calonnau wrth i ni ildio'n llwyr i'r Brenin Iesu. Cofiwn nad oes modd cael bywyd newydd heb fod Duw ar waith yn ein bywydau (2 Corinthiaid 5:17-18), a diolchwn am wirionedd hyfryd Deuteronomium 4:29 - Os byddwch yn ceisio'r Arglwydd eich Duw yno, ac yn chwilio amdano â'ch holl galon ac â'ch holl enaid, byddwch yn ei gael.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 63: 1-8 (BCND tud.524 / BCN: tud.479)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • **Oedfa ARBENNIG i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd y **Parch. John Derek Rees** yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.  
• **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Cefn Meiriadog. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a Gwasanaeth Cymun i ddilyn.
- Sul nesaf • **Oedfa o werthfawrogiad am wasanaeth y Parch. Graham Floyd** yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ac yn gweinyddu'r Cymun yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 10.45. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa yno am 10.45.
- Sul nesaf Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 a Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

**Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau**